

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â pharatoi a gweithredu peiriant sylfaen sy'n gallu cael ei ddefnyddio gydag amrywiaeth o atodion i gyflawni gweithgareddau coedwigaeth.

Gall peiriant sylfaen fod ar olwynion neu â thraciau.

Mae defnydd cymwys o beiriant sylfaen ag atodion yn gofyn am sgil a gwybodaeth sylweddol. Bydd angen i chi ymgymryd â hyfforddiant penodol a dal ardystiad cyfredol, lle bo angen, yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

Mae'r safon yn cynnwys defnyddio peiriannau sylfaen gydag amrywiaeth o atodion mewn amrywiaeth o amodau tywydd, amodau tir a thirwedd. Bydd yr amodau hyn yn effeithio ar drin a defnyddio'r peiriant sylfaen a'r atodion.

Wrth ddefnyddio'r peiriant sylfaen ar y briffordd, bydd angen y trwyddedau priodol ar eich cyfer chi a'r peiriant arnoch chi.

Mae'n rhaid i'ch gwaith gydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth, codau ymarfer, safonau'r diwydiant a chanllawiau perthnasol.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. cael y wybodaeth berthnasol i gyflawni'r gweithgareddau gwaith yn unol â gweithdrefnau sefydliadol
2. cynnal eich iechyd a'ch diogelwch eich hun ac iechyd a diogelwch pobl eraill bob amser, yn unol â'r ddeddfwriaeth a chodau ymarfer perthnasol
3. asesu'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r safle a'r gwaith sydd i'w gyflawni, cyn dechrau gweithio a thrwy gydol y gweithgaredd, gan wirio a chadarnhau canfyddiadau unrhyw asesiadau risg presennol
4. cadarnhau bod camau rheoli digonol wedi'u rhoi ar waith a bod cynllunio a gweithdrefnau brys yn berthnasol i'r safle wedi'u sefydlu a'u cofnodi
5. cadarnhau bod hyfforddiant, profiad ac ardystiad perthnasol yn eu lle i ymgymryd â'r gwaith sydd i'w gyflawni, a chydabod y cyfyngiadau ar eich cymhwysedd chi
6. cadarnhau bod y cyfarpar diogelu personol (PPE) priodol ar gyfer y gwaith i'w gyflawni yn cael ei wisgo drwy'r amser
7. cynnal diogelwch a diogeledd cyfarpar a pheiriannau ar y safle
8. dewis y peiriant sylfaen cywir ar gyfer y gwaith sydd i'w gyflawni, yn unol â'r wybodaeth a ddarperir
9. paratoi'r peiriant sylfaen trwy wneud gwiriadau ac addasiadau cyn dechrau, yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, codau ymarfer a chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr, gan gynnwys pob gard diogelwch
10. cadarnhau bod y peiriant sylfaen yn ddiogel ac yn barod i'w ddefnyddio, a chwblhau'r ddogfennaeth fel bo'r gofyn
11. gwirio ac addasu amgylchedd y gweithredwr i fodloni eich gofynion personol
12. dewis yr atodion priodol i wneud y gwaith gofynnol
13. gwirio bod yr atodion yn addas i'r peiriant sylfaen
14. gwirio bod yr atodion wedi'u ffitio'n dynn ac yn ddiogel
15. archwilio'r ardal waith uniongyrchol am beryglon a rhwystrau cyn symud
16. defnyddio'r arwyddion rhybudd cywir bob amser
17. gweithredu a symud y peiriant sylfaen yn ddiogel, mewn ffordd sy'n gyson â'r math o gerbyd, atodyn a'r weithred
18. sicrhau bod yr atodyn mewn safle cludo pan nad yw'n cael ei ddefnyddio, yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr
19. addasu gweithdrefnau gweithredu i ystyried unrhyw newidiadau o ran trosglwyddo pwysau, amodau'r tir, mathau o dirwedd, tywydd a chyfyngiadau'r

Paratoi a gweithredu peiriant sylfaen ag atodion

safe

20. defnyddio camau diogelu ychwanegol wrth symud am yn ôl neu symud, a chydymffurfio â phellteroedd diogelwch gerllaw ffyrdd a llwybrau neu lle mae pobl eraill yn gweithio
21. cynnal effeithlonrwydd perfformiad y peiriant sylfaen a'r atodyn trwy drin a chynnal a chadw priodol
22. delio ag unrhyw beryglon a rhwystrau yn ystod y gweithredu, yn unol ag arfer safonol
23. monitro sut mae'r atodyn yn gweithredu ac adnabod unrhyw namau
24. stopio ac ynysu'r peiriant sylfaen ar ôl cwblhau'r gweithgaredd, yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr
25. tynnu'r atodyn, lle bo'n briodol, yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr
26. gadael y peiriant sylfaen a'r atodyn yn ddiogel ar ôl eu defnyddio ac mewn cyflwr addas i'w defnyddio yn y dyfodol
27. gwneud gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio sylfaenol yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr
28. dilyn arfer da amgylcheddol yn ôl yr hyn sydd wedi'i osod gan eich sefydliad a'r diwydiant, a lleihau difrod amgylcheddol
29. delio'n effeithiol â phroblemau sy'n codi o fewn cwmpas a chyfyngiadau eich cyfrifoldebau eich hun a rhoi gwybod am broblemau na ellir eu datrys, yn unol â gweithdrefnau sefydliadol
30. cwblhau a storio'r holl ddogfennaeth berthnasol yn unol â gofynion cyfreithiol a sefydliadol

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. sut i nodi a chael at wybodaeth sy'n berthnasol i'r gwaith gofynnol
2. sut i nodi peryglon ac asesu'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r safle a'r gwaith i'w wneud a phwysigrwydd asesiad risg sy'n benodol i safle a chamau rheoli sy'n briodol i'ch maes gwaith
3. y gweithdrefnau iechyd a diogelwch a'r Systemau Gweithio Diogel perthnasol
4. y cynllunio a'r gweithdrefnau brys sy'n berthnasol i'r safle, pellteroedd parthau risg a'r rheolaeth ar barthau risg
5. gofynion cyfreithiol, y diwydiant a sefydliadol am hyfforddiant, profiad ac ardystiad i wneud y gweithgareddau gwaith gofynnol a phwysigrwydd cydnabod eich cyfyngiadau a pheidio ag ymgymryd â gwaith sydd y tu hwnt i lefel eich cymhwysedd
6. dewis, defnyddio a gofalu am gyfarpar diogelu personol (PPE)
7. y ddeddfwriaeth bresennol yn gysylltiedig â defnyddio peiriannau sylfaen ac atodion a'r gofynion cyfreithiol am wirio cyfarpar
8. y gwiriadau ac addasiadau gofynnol cyn dechrau ar gyfer y peiriant sylfaen a'r atodion, y rhesymau pam mae'n rhaid cyflawni'r rhain a phryd mae angen eu cofnodi
9. y gofynion am strwythurau amddiffyn i'r peiriant a'r gweithredwr
10. y weithdrefn ar gyfer llwytho a dadlwytho'r peiriant sylfaen a'r atodion o'r lori gludo, lle bo'n briodol
11. sut i esgyn i'r peiriant sylfaen, a dod oddi arno, yn ddiogel
12. sut i ddechrau a stopio'r peiriant sylfaen, gan gynnwys y gweithdrefnau cywir ar gyfer gwthdanio
13. swyddogaeth yr holl reolyddion ac offerynnau ar gyfer y peiriant sylfaen a'r atodyn, gan gynnwys systemau cyfrifiadurol ar y peiriant, lle y gosodwyd y rhain
14. y mathau o atodion sy'n ddiogel i'w defnyddio gyda'r peiriant sylfaen a sut mae'r rhain wedi'u gosod
15. yr amodau y dylid cyfrif amdanynt wrth ystyried defnyddio atodion
16. sut i osod neu raddnodi atodion, lle bo angen
17. y defnydd priodol o arwyddion rhybudd a chyfeirwyr
18. ffyrdd y dylid gweithredu a symud y peiriant sylfaen, a sut mae'n rhaid cyfrif am wahanol dywydd, amodau tir, mathau o dirwedd a'r gwaith sy'n cael ei gyflawni
19. yr amrywiol nodweddion a thechnegau gyrru ar gyfer gyrru peiriant sylfaen

Paratoi a gweithredu peiriant sylfaen ag atodion

- gyda ffurfweddiadau gwahanol ar gyfer yr olwynion
20. gosod cymhorthion tyniant yn gywir a manteision ac anfanteision eu defnyddio
 21. sut i weithredu a defnyddio atodion yn ddiogel, gan gynnwys y gwrthbws
 22. goblygiadau trosglwyddo pwysau i sefydlogrwydd y peiriant a sut mae hyn yn effeithio ar ei weithredu ar lethrau, gan gynnwys llethrau ochr
 23. y rheolyddion a'r gwasanaethau trydanol ar y peiriant sylfaen a'r atodyn
 24. sut i roi'r atodyn mewn safle cludo a safle gweithio, lle bo'n briodol
 25. galluedd y peiriant sylfaen a'r ffactorau a allai effeithio ar ei effeithlonrwydd
 26. y mathau o beryglon a rhwystrau y gallech ddod ar eu traws a sut dylid delio â'r rhain
 27. sut i fonitro sut mae'r atodyn yn gweithredu a'r camau gweithredu y gallai fod eu hangen
 28. namau, diffygion a thraul y rhannau sy'n digwydd mewn atodion a ddefnyddir ar gyfer gweithrediadau gwaith coed
 29. sut i ddiogelu effeithlonrwydd y peiriant sylfaen a'r atodyn trwy wiriadau arferol y gweithredwr a chynnal a chadw sylfaenol, yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr
 30. sut i wneud gwaith cynnal a chadw ac atgyweiriadau sylfaenol a phryd i gyfeirio problemau â'r peiriant sylfaen neu'r atodyn
 31. y rhesymau pam dylai'r peiriant sylfaen a'r atodyn gael eu gadael mewn cyflwr addas i'w defnyddio yn y dyfodol, gan gynnwys ail-lenwi â thanwydd neu ailwefru, lle bo'n briodol
 32. sut i osod a defnyddio ardaloedd cyflenwi tanwydd a chynnal a chadw, lle bo'n briodol, a phwysigrwydd cynnal diogelwch tanwydd
 33. sut i ddelio â gollyngiadau tanwydd, gan gynnwys defnyddio citiau gollyngiadau a sut i roi gwybod am ollyngiadau
 34. pwysigrwydd lleihau difrod amgylcheddol ac atal digwyddiadau llygredd, gan gynnwys llygredd gwasgaredig
 35. y problemau a all godi wrth weithredu peiriant sylfaen ag atodiadau, y camau i'w cymryd a'r gweithdrefnau sefydliadol ar gyfer rhoi gwybod am broblemau na ellir eu datrys
 36. cwmpas a chyfyngiadau eich cymhwysedd, eich cyfrifoldebau a'ch atebolrwydd
 37. y gofynion cyfreithiol a sefydliadol ar gyfer cwblhau a storio dogfennaeth

Geirfa

Mae atodion yn cynnwys:

- ar drelar
- wedi'u gosod ar y blaen neu ar y cefn
- llwythwyr
- cyfarpar a yrrir gan PTO ac yn hydrolog

Ffactorau effeithlonrwydd:

- gosodiad cyflymder trawsyrru
- hydroleg
- pwysedd teiars
- gwrthbwys
- balast
- cylchdroeon yr injan

Amodau'r tir:

- gwlyb
- sych
- rhew
- ia
- llaid
- tir chwâl

Gallai **gwybodaeth** sy'n ofynnol i gyflawni gweithgareddau gwaith gynnwys:

- lluniadau
- cynlluniau
- amserlenni
- manylebau

Paratoi a gweithredu peiriant sylfaen ag atodion

- datganiadau dull
- Gweithdrefnau Gweithredu Safonol (SOPs)
- cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr
- gofynion y cwsmer
- gofynion sicrhau ansawdd
- safonau'r diwydiant (e.e. Safonau Prydeinig)
- cyfarwyddiadau ar lafar neu yn ysgrifenedig
- canllawiau'r diwydiant (e.e. FISA)

Gwiriadau ac addasiadau cyn defnyddio yn amgylchedd y gweithredwr:

- sedd
- rheolyddion llywio a symud
- system frecio
- drychau a/neu gamerâu
- gwregys
- medryddion monitro
- paneli gwybodaeth
- sgriniau Technoleg Gwybodaeth
- rhybuddion gweledol a chlywedol
- system gyfathrebu

Mae **gweithdrefnau sefydliadol** yn cyfeirio at weithdrefnau sydd wedi'u gosod gan y sefydliad sy'n eich cyflogi neu'r sefydliad rydych chi'n gwneud y gwaith ar ei ran (y cleient neu'r cwsmer)

Strwythurau amddiffyn:

- Strwythurau Amddiffynnol y Gweithredwr (OPS)
- Strwythurau Amddiffynnol rhag Rholio (ROPS)
- Strwythurau Amddiffynnol rhag Gwrthrychau sy'n Disgyn (FOPS)

System Weithio Ddiogel (SSoW) – dyma ddull gweithio sy'n rhoi mesurau rheoli ar waith sy'n deillio o asesiad risg, er mwyn rheoli peryglon a nodwyd, a rhennir y mesurau hyn yn bedair elfen: person diogel; cyfarpar diogel; lle diogel; ac arfer diogel.

Tirwedd:

- arwynebau caled
- arwynebau meddal
- arwynebau anwastad
- llethrau

Paratoi a gweithredu peiriant sylfaen ag atodion

Datblygwyd gan	Lantra
Fersiwn rhif	2
Dyddiad cymeradwyo	30 Ebr 2024
Dyddiad Adolygu Dangosol	30 Ebr 2029
Dilysrwydd	Ar hyn o bryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Lantra
RCU gwreiddiol	LANTw79
Galwedigaethau perthnasol	Coedyddiaeth a choedwigaeth, Gweithredwyr llif gadwyn a pheiriannau coedwig
Cyfres/Set	Gwaith coed
Geiriau Allweddol	cerbyd; atodion; ailgyfeiriwr; cynaeafwr; llwythwr; grab; gafael
